Community Land
Advisory Service
Gwasanaeth Cynghori
Ar Dir Cymunedol

CLAS Cymru and Community Asset Transfer

How can the Community Land Advisory Service help local authorities?

In an era of Community Asset Transfer in Wales, many local authorities are looking for communities to manage, lease and own public land and buildings. This document has been put together primarily for local authority estates managers. We want you to be familiar with the expertise of CLAS Cymru, where we have a track record of providing good practice and how we can help you going forward.

CLAS Cymru is a Big Lottery Funded 5 year programme. The aim is that the Service will provide support to 250 community food growing projects and 100 landowners who wish to release land for this purpose. In turn this will make more land available for use by community food growing project groups across Wales. The intention is that the programme will enable the start-up of 75 new community growing projects by the end of the 5 year grant term.

The CLAS Cymru Service employs specialist staff who give impartial advice on a one to one project basis, develop toolkit guidance and template documentation, support land negotiations and deliver training and peer to peer learning events.

Much of the advice and support that we provide is transferable to other land based (not buildings) community projects – not just growing of local food - but it is those projects that we are funded to support.

CLAS Cymru Community Land Advisors have valuable experience of working with local authorities to gain effective agreement between all parties so that communities to grow on public land. Some of our Advisors have worked in local authorities themselves and know the structures and processes local authority service areas have to abide by. We are skilled at working with community groups and helping them to work effectively with local authority officers and council Members. We act as a trusted conduit between the parties and are independent and impartial. More specifically we have experience of:

1. Consulting with local communities and taking on board aspirations that are representative of the whole community.
2. Getting groups organised and legally formed before attempting to undergo local authority processes and procedures
3. Helping groups build and present a business case for taking on land
4. Helping groups to populate and complete community asset transfer forms
5. Providing templates for leases and licenses for transfers that have worked in the past.
6. Providing and keeping people up to date with the latest Welsh Government and other guidance documents and material that are helpful for all parties in the process of asset transfer.
7. Helping groups gain the necessary permissions for what they want to do with the land. We have particular experience of submitting planning applications for community growing projects.
8. Effectively mediating between parties in the process of transferring land to communities.

What have we achieved to date?

1. High level of partnership working on community growing activities with 4 local authorities – Swansea, Wrexham, Cardiff and Monmouthshire
2. 66 landowners worked with and 36 new sites made available by them. Our Target is for CLAS Cymru to support landowners to make 40 new sites available.
3. 171 Community growing groups supported. We are aiming for 250 groups in total.
4. 352 people have attended CLAS Cymru training events. The target is for 250 people to benefit from the Service.
5. 45 new projects have started up. We are aiming for 75 new projects in total.
6. 191 hectares of land are now being used for community growing as a result of CLAS Cymru support and services since 2013.

Want to know more?

Please contact the Community Land Advisory Service Cymru by calling the Coordinator, Lucie Taylor, on 02920 960966 or emailing lucie@communitylandadvice.org.uk

Community Land Advisory Service
Gwasanaeth Cynghori Ar Dir Cymunedol

CLAS Cymru a Throsglwyddo Asedau Cymunedol

Sut gall y Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol helpu awdurdodau lleol?

Mewn oes o Drosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru, mae nifer gynyddol o awdurdodau lleol yn chwilio am gymunedau i reoli, prydlesu a pherchen ar dir ac adeiladau cyhoeddus. Lluniwyd y ddogfen hon yn bennaf ar gyfer rheolwyr ystadau awdurdodau lleol a swyddogion awdurdod lleol eraill sy'n delio â throsglwyddo tir i gymunedau. Rydym eisiau i chi fod yn gyfarwydd ag arbenigedd CLAS Cymru, lle mae gennym hanes da o ddarparu arfer da, a sut allwn ni eich helpu chi wrth fynd ymlaen.

Rhaglen 5 mlynedd a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr yw CLAS Cymru. Y nod yw y bydd y Gwasanaeth yn darparu cymorth i 250 o brosiectau tyfu bwyd cymunedol a 100 o dirfeddianwyr sy'n dymuno rhyddhau tir at y diben hwn. Yn ei dro, bydd yn golygu y bydd mwy o dir ar gael i'w ddefnyddio gan grwpiau prosiect tyfu bwyd cymunedol ledled Cymru. Y bwriad yw y bydd y rhaglen yn galluogi 75 o brosiectau tyfu bwyd cymunedol newydd i gychwyn arni erbyn diwedd cyfnod 5 mlynedd y grant.

Mae Gwasanaeth CLAS Cymru yn cyflogi staff arbenigol sy'n rhoi cyngor diduedd ar sail un i un i brosiectau, yn datblygu canllawiau pecyn cymorth a dogfennau templed, yn cynorthwyo trafodaethau tir ac yn darparu hyfforddiant a digwyddiadau dysgu cymar i gymar.

Gellir trosglwyddo llawer o'r cyngor a'r cymorth a ddarparwn i brosiectau cymunedol tir eraill (nid adeiladau) – nid tyfu bwyd lleol yn unig – ond prosiectau tyfu cymunedol y cawn ein hariannu i'w cefnogi.

Mae gan Gynghorwyr Tir Cymunedol CLAS Cymru brofiad gwerthfawr o weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau cytundeb effeithiol rhwng pob parti fel y gall cymunedau dyfu ar dir cyhoeddus. Mae rhai o'n Cynghorwyr wedi gweithio mewn awdurdodau lleol eu hunain ac maent yn gwybod am y strwythurau a'r prosesau y mae'n rhaid i feysydd gwasanaeth awdurdodau lleol gadw atynt. Mae'r sgiliau gennym i weithio gyda grwpiau cymunedol a'u helpu i weithio'n effeithiol gyda swyddogion awdurdod lleol ac Aelodau cynghorau. Gweithredwn fel cyfrwng y gellir ymddiried ynddo rhwng y partïon, ac rydym yn annibynnol a diduedd. Yn fwy penodol, mae gennym brofiad o'r canlynol–

1. Ymgynghori â chymunedau lleol a rhoi ystyriaeth i ddyheadau sy'n gynrychioliadol o'r gymuned gyfan.
2. Trefnu grwpiau a sicrhau bod ganddynt gyfansoddiad cyfreithiol cyn ceisio ymgymryd â phrosesau a gweithdrefnau awdurdodau lleol.
3. Helpu grwpiau i lunio a chyflwyno achos busnes dros gymryd tir.
4. Helpu grwpiau i lenwi ffurflenni trosglwyddo asedau cymunedol.
5. Darparu templedi o drosglwyddiadau sydd wedi gweithio yn y gorffennol.
6. Darparu dogfennau a deunydd arweiniad diweddaraf Llywodraeth Cymru ac eraill sy'n ddefnyddiol i bob parti yn y broses o drosglwyddo asedau, a sicrhau bod pobl yn cael y wybodaeth ddiweddaraf amdanynt.
7. Helpu grwpiau i gael y caniatadau angenrheidiol ar gyfer yr hyn y maent am ei wneud gyda'r tir. Mae gennym brofiad arbennig o gyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer prosiectau tyfu cymunedol.
8. Cyfryngu'n effeithiol rhwng partïon yn y broses o drosglwyddo tir i gymunedau.

Beth ydym ni wedi'i gyflawni hyd yma?

1. Lefel uchel o weithio mewn partneriaeth ar weithgareddau tyfu cymunedol gyda 4 awdurdod lleol – Abertawe, Wrecsam, Caerdydd a Sir Fynwy
2. Gweithiwyd gyda 66 o dirfeddianwyr, ac fe wnaethant drefnu bod 36 o safleoedd newydd ar gael.
3. Cefnogwyd 171 o grwpiau tyfu cymunedol. Mae 352 o bobl wedi mynychu digwyddiadau hyfforddi CLAS Cymru.
4. Mae 45 o brosiectau newydd wedi cychwyn arni.
5. Mae 191 hectar o dir yn cael eu defnyddio nawr ar gyfer tyfu cymunedol o ganlyniad i gefnogaeth a gwasanaethau CLAS Cymru er 2013.

Eisiau gwybod mwy?

Cysylltwch â Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol Cymru drwy ffonio'r Cydlynydd, Lucie Taylor, ar 02920 960966 neu anfonwch neges e-bost i lucie@communitylandadvice.org.uk